

Polisi Teithio Diogel

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed



Mae diogelwch dysgwyr o'r pwys mwyaf. Rhaid i ddysgwyr ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno, boed ar fws, trên, tacsï, beic, cerdded neu unrhyw ffordd arall. Os bydd dysgwyr yn dal bws i'r ysgol, rhaid iddynt hefyd ddilyn y rheolau yn y côd teithio diogel ar fysiau ysgol (gweler isod).

Os nad ydynt yn dilyn y côd hwn, er eu diogelwch eu hunain, a phobl eraill, gall yr Awdurdod Lleol a'r ysgol gymryd camau yn erbyn y dysgwr. Gallai hyn olygu dileu eu hawl i gludiant ysgol a hyd yn oed eu diarddel o'r ysgol.

Cyfrifoldeb Dysgwyr

- Parchwch eraill bob amser, gan gynnwys dysgwyr eraill, gyrrwyr a'r cyhoedd.
- Parchwch gerbydau ac eiddo bob amser.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Peidiwch byth â gollwng sbwriel.
- Dylech bob amser ufuddhau i'r gyfraith.

Diogelwch Dysgwyr

- Dylech bob amser ymddwyn yn dda wrth deithio.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser wrth deithio.
- Peidiwch byth â thynnu sylw gyrrwr.
- Dylech bob amser groesi'r ffordd yn ddiogel ac yn synhwyrol.
- Teithiwch ar lwybr diogel bob amser.

Hawliau Dysgwyr

- Bod yn ddiogel wrth deithio.
- Cael eich trin yn deg a chyda pharch.
- Dweud wrth rywun os yw rhywun neu rywbeth yn achosi problemau i chi.
- Peidio â chael eich bwlio.

Dylai dysgwyr ddweud wrth athro, rhiant neu yrrwr am unrhyw ymddygiad gwael neu fwlio y maent yn ei weld.

Cod Ymddygiad Dysgwyr ar gyfer Teithio ar Fysiau Ysgol

1. Pan fyddant yn yr arhosfan bysiau, dylai dysgwyr aros yn synhwyrol bob amser, oddi ar y ffordd (os yn bosibl, ar balmant).
2. Dylai dysgwyr wneud trefniadau gyda'u rhieni ynghylch beth i'w wneud os nad yw'r bws yn cyrraedd neu os ydynt yn ei golli.
3. Pan fydd y bws yn cyrraedd, dylai dysgwyr aros iddo stopio. Ni ddylid byth gwthio na rhuthro am y drws.
4. Dylai dysgwyr ddangos eu pas bws (os ydynt wedi cael un) pan fyddant yn mynd ar y bws.
5. Ar fws ysgol, rhaid i ddysgwyr aros yn eu sedd ar gyfer y daith gyfan.
6. Ar fws cyhoeddus, rhaid i ddysgwyr eistedd mewn sedd os oes un ar gael.
7. Ni ddylai dysgwyr fyth gadael bag neu eiddo arall yn llwybr canol y bws.
8. Rhaid i ddysgwyr wisgo gwregys diogelwch bob amser os darperir un.
9. Rhaid i ddysgwyr beidio â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru.

10. Rhaid i ddysgwyr beidio â bwyta nac yfed ar y bws.
11. Ni ddylai dysgwyr byth daflu unrhyw beth tu fewn neu allan o'r bws.
12. Ni ddylai dysgwyr fyth difrodi na fandaleiddio unrhyw ran o'r bws.
13. Ni ddylai dysgwyr byth cyffwrdd nac agor drysau neu allanfeydd y bws, ac eithrio mewn argyfwng.
14. Rhaid i ddysgwyr ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser.
15. Os bydd damwain, rhaid i ddysgwyr aros ar y bws nes y dywedir wrthynt am adael. Os nad yw'n ddiogel i aros ar y bws, yna dylid adael drwy'r allanfa fwyaf diogel.
16. Rhaid i ddysgwyr bob amser fynd oddi ar y bws yn synhwyrol, gan gymryd pob eiddo.
17. Ni ddylai dysgwyr fyth groesi'r ffordd o flaen neu y tu ôl i'r bws.
18. Rhaid i ddysgwyr beidio â chwarae cerddoriaeth uchel ar y bws.
19. Rhaid i ddysgwyr siarad mewn modd parchus â'r gyrrwr.
20. Ni ddylai dysgwyr ddod ag unrhyw beth ar y bws i'w werthu.
21. Rhaid i ddysgwyr beidio ag ysmegu na vapiro ar y bws.

[Brig y dudalen](#)